**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 12fed Chwefror 2026 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans ac Alwen Thomas.
Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc: Denfer Morgan

**321 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Gary Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones ac Iwan Thomas am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**322 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 22ain Ionawr 2026**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 22ain Ionawr 2026.

**323 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Nodwyd fod arwydd ffordd 'rhybudd o droeon cas' wedi cael ei osod ar y B4339 ger yr Eglwys.

**324 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Nodwyd nad oedd rhagor o wybodaeth wedi ei dderbyn gan Awdurdodau'r Eglwys ynghylch eu harchwiliadau am dystiolaeth o'u perchnogaeth o'r tir.

**325 Gwefan y Cyngor**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r pris a dderbyniwyd gan Elfed Jenkins am gynnal y gwefan am y ddwy flynedd nesaf a **PHENDERFYNWYD** cytuno i barhau gyda'r darparydd yn y swm o £302.15.

**326 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

i) gwneud y cyfraniadau isod:

C Ff I Felinfach - £100
C Ff I Ceredigion - £50
WI Ciliau Aeron - £50
HAHAV Aberystwyth - £100
Blood Bikes Wales Aberystwyth - £100
Ambiwlans Awyr Cymru - £100

ii) gwneud cyfraniad o £50 i Bwyllgor Neuadd Bentref Ciliau Aeron ar gyfer y gost o redeg y diffibrilydd gan gynghori'r Pwyllgor i ofyn i'r darparydd trydan am fanylion y biliau misol; a

iii) gohirio'r cais a dderbyniwyd oddi wrth Men's Shed Aberaeron tan gyfarfod mis Mawrth a gofyn iddynt am gopi o'u cyfrifon cyfredol.

**327 Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd dwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol:

Tyllau yn ffordd C1131 Ciliau Aeron

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20pm